

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Carn y Cefn, Ysbyty Aneurin

Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol

Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 15, 16 a 17 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83715-213-1

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom.....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 15-17 Hydref 2024. Adolygydd y ward ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Carn y Cefn - 11 gwely sy'n darparu gwasanaethau cleifion mewnol i oedolion â phroblemau iechyd meddwl aciwt. Mae'r uned yn asesu, yn trin ac yn sefydlogi cleifion 18-65 oed.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC, un o arolygwyr gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol (gan gynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd trefniadau ar waith i roi profiad cadarnhaol i gleifion wrth gael eu derbyn i'r uned. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd eitemau personol yn ystafelloedd y cleifion ac roedd ganddynt ystafelloedd ymolchi en-suite. Roedd caniatâd i adael yr uned yn seiliedig ar ddymuniadau'r unigolyn, wedi'u cydbwysu â'r risgiau, ac roedd hyn yn cael ei hwyluso'n dda gan staff yr uned ar y cyfan. Gallai'r cleifion ddefnyddio ffonau symudol a llechi.

Roedd amrywiaeth o ddulliau hybu iechyd a oedd yn canolbwyntio ar helpu i wella llesiant cleifion, ac roedd pob claf yn cael ei annog i wneud penderfyniadau drosto ei hun, gyda chymorth ychwanegol gan staff yr uned pan fo angen. Roedd dewisiadau iaith ac anghenion cyfathrebu yn cael eu bodloni a'u diwallu, ac roedd gwasanaethau eirioli yn cael eu defnyddio neu berthnasau neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn unol â dymuniadau'r claf. |

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- |Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid gwella ardal yr ardd er mwyn cynnig mwy o werth therapiwtig i'r cleifion. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- |Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion.
- Roedd gan y cleifion fynediad at eitemau personol, ffonau symudol a threfniadau gadael ffurfiol ac anffurfiol.
- Roedd y cleifion yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau annibynnol am dasgau pob dydd, eu gofal a'u triniaeth, ond roeddent yn cael eu cefnogi pan fo angen. |

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr uned mewn cyflwr da ac roedd trefniadau priodol ar waith i helpu i gadw'r staff ac ymwelwyr yn ddiogel. Roedd mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, ond nodwyd rhai mân feysydd i'w gwella yn ymwneud â chyfarpar aml dro a storio. Roedd y staff yn ymwybodol o'r prosesau ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu a chofnodi digwyddiadau, a oedd yn cael eu hadolygu a'u goruchwyllo'n briodol. Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn briodol ar y cyfan,

ond roedd angen cryfhau rhai meysydd yn ymwneud â storio, cofnodi, a gwybodaeth staff.

Prin oedd y defnydd a wnaed o ymyriadau corfforol yn yr uned, yn rhannol am fod tystiolaeth glir o strategaethau ataliol a therapiwtig i atal ymddygiadau rhag gwaethygu. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan lefelau da o hyfforddiant staff a chydymffurfiaeth â phrosesau adrodd.

Roedd trefniadau tîm amlddisgyblaethol da ar waith ar gyfer yr uned, a oedd yn cynnwys cydleoli timau, presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd neu yn yr uned, a rowndiau wythnosol, gan gynnwys y cleifion lle roeddent yn dymuno cael eu cynnwys.

Roedd tystiolaeth dda o gydymffurfiaeth â meysydd y Mesur Iechyd Meddwl, ynghyd â chofnodion da o anghenion cleifion, risgiau, a chynlluniau gofal cyfatebol. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau asesiadau risg a'u hadolygu. Gwelwyd bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a bod eiriolaeth, absenoldeb a'r holl hawliau eraill a ragnodir gan y Ddeddf, ar gael iddynt. |

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar atal a rheoli heintiau yn ymwneud ag ardaloedd anhrefnus a dyfeisiau a chyfarpar amldro
- Agweddau ar reoli meddyginiaethau yn ymwneud â labelu, storio a gwaredu meddyginiaeth, cloi oergelloedd clinigol, a gwybodaeth am sut i ddefnyddio ocsigen cludadwy.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr uned mewn cyflwr da, ac roedd trefniadau ar waith i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel yn yr uned
- Roedd y staff yn wybodus am y prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau, ac roedd y prosesau adolygu, goruchwyllo a rhoi adborth yn dda
- Prin oedd y defnydd a wnaed o ymyriadau corfforol yn yr uned, ac roedd hyfforddiant, gwybodaeth a phrosesau adborth priodol i gefnogi hyn.
- Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn gymesur i'w harhosiad yn yr uned, a gwelsom gofnodion clir, trefniadau tîm amlddisgyblaethol a bod cleifion yn cael eu cynnwys.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod y prosesau llywodraethu a goruchwyllo yn gweithio'n dda, gan alluogi gwybodaeth i gael ei rhannu rhwng yr uned, uwch-staff nyrsio a chyfarfodydd ar lefel is-adrannol. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan archwiliadau lleol, is-adrannol a chorfforaethol a thrwy gerdded o amgylch yr uned.

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward, gan gynnwys staff profiadol, gwybodus ac ymatebol. Drwy gydol yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod pob aelod o'r staff ar y ward yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Roedd yn gadarnhaol gweld gweithlu sefydlog ar y cyfan, gyda nifer da o staff a chymysgedd sgiliau da yn yr uned.

Ar y cyfan, roedd cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn uchel ymhlith y staff yn yr uned. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r hyfforddiant ar godi a chario. Gallai fod yn fuddiol hefyd sicrhau bod mwy o staff wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys. Roedd y gyfradd gydymffurfio ag arfarniadau yn dda, ac roedd dystiolaeth bod cyfleoedd dysgu a datblygu yn cael eu cynnig yn unol ag anghenion a dymuniadau a nodwyd yn ystod arfarniadau. |

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynyddu nifer y staff nyrsio sydd wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys. |

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolaeth ac arweinyddiaeth dda, a thîm a oedd yn cydweithio'n dda, yn ôl pob golwg
- Gweithlu sefydlog ar y cyfan, a niferoedd da o staff a chymysgedd sgiliau da
- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol ar y cyfan, gyda nifer bach o eithriadau a nodir uchod. |

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Er mai dim ond un holiadur cleifion a gwblhawyd, gwnaethom gynnig siarad â phob un o'r cleifion a gwnaethom siarad â nifer o gleifion yn anffurfiol yn ystod yr arolygiad.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon ar eu profiad yn yr uned, a gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhyngddynt a'r staff, a chleifion eraill. Roedd yr adborth a gafwyd yn cynnwys mwy o ddewis o fyrbrydau, ac yn ystod amseroedd bwyd. Roedd hyn eisoes yn cael ei adolygu yn yr uned. Mae'r adborth a gafwyd mewn perthynas â'r ardd wedi'i nodi isod. |

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth o ddulliau hybu iechyd a oedd yn canolbwyntio ar lesiant cleifion wrth eu derbyn i'r uned. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi'u harwain gan y tîm therapi, megis ioga a sesiynau cerdded a sgwrsio. Mae therapydd galwedigaethol newydd wedi dechrau gweithio yn yr uned yn ddiweddar ac roedd wrthi'n datblygu amserlen newydd i gynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael.

Roedd gweithgareddau eraill ar gael yn yr uned, gan gynnwys celf a chreffft, gemau bwrdd, ffilmiau, a mynediad i ardal awyr agored ddymunol. Er bod llwybrau cerdded a seddau yn yr ardal awyr agored, mae potensial iddi gynnig mwy o fudd therapiwtig i'r cleifion yn yr uned.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid gwella ardal yr ardd er mwyn cynnig mwy o werth therapiwtig i'r cleifion.

O ran cleifion a allai gael cyfnod o absenoldeb yn y gymuned, dywedwyd wrthym fod hyn yn elfen bwysig o gefnogi eu llesiant a helpu i greu ymdeimlad ymlaciol yn yr uned. Gwelsom fod absenoldeb yn cael ei hwyluso'n rheolaidd, gyda nifer bach o eithriadau pan nad oedd cyfyngiadau staffio neu gyflwr y claf yn caniatáu hyn. |

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom rymgweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys sgysiau parchus, staff yr uned yn parchu preifatrwydd drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely cyn mynd i mewn ac yn sgwrsio â'r cleifion yn eu hystafelloedd i ffwrdd o'r brif ardal gymunedol.

Roedd eitemau personol yn ystafelloedd y cleifion ac roedd ganddynt ystafelloedd ymolchi en-suite. Roedd ffenestri arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a bleinds y gallai'r cleifion eu rheoli, a gallai'r cleifion gloi'r drysau. Fodd bynnag, gallai'r staff eu hagor wrth arsylwi ar y cleifion. |

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gwblhau tasgau pob dydd, megis defnyddio'r olchfa a'r gegin. Roeddent yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gyda chymorth ychwanegol gan y staff pan fo angen.

Roedd caniatâd i adael yr uned yn seiliedig ar ddymuniadau'r unigolyn, wedi'u cydbwysu â'r risgiau, ac roedd hyn yn cael ei hwyluso'n dda gan staff yr uned ar y cyfan. Roedd hyn yn cael ei adolygu yn ystod rowndiau ward rheolaidd a fforymau'r tîm amlddisgyblaethol, neu yn ôl yr angen.

Gallai'r cleifion gadw eu dyfeisiau eu hunain, fel ffonau symudol a llechi, yn yr uned. Roedd Wi-Fi ar gael er mwyn helpu'r cleifion i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau, perthnasau a gofalwyr.

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i ddod â'u dyfeisiau a'u cyfarpar eraill, fel cymhorthion symudedd, i'r uned wrth gael eu derbyn. Roedd rhai dyfeisiau ar gael i'w defnyddio yn yr uned, a gellid cynnal asesiadau pe bai angen.

Roedd gwybodaeth am hunangymorth a gwasanaethau cymorth ar gael yn yr uned, fel eiriolaeth a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Gwnaethom gadarnhau bod cyfarfodydd un i un rhwng y staff a'r cleifion yn rhoi cyfle i gleifion drafod unrhyw anghenion penodol. |

Amserol

Gofal amserol

Yn ystod y cyfnod cyn yr arolygiad, a thrwy gydol yr arolygiad ei hun, roedd niferoedd y staff a'r cymysgedd sgiliau yn sefydlog. Gwnaethom gadarnhau bod modd addasu lefelau staffio i ddiwallu anghenion y cleifion a'u haciwtedd, gan gynnwys lefelau arsylwi uwch, pan fo angen. Gwelsom y staff yn cynorthwyo'r cleifion yn yr uned mewn modd amserol drwy gydol yr arolygiad.

Roedd tîm amlddisgyblaethol yn yr uned, gan gynnwys staff nyrsio, cymorth gofal iechyd, a therapi galwedigaethol, gyda mewngymorth gan staff seiciatreg a seicoleg, a oedd yn gweithio ar safle'r ysbyty. Roedd rowndiau ward wythnosol a chyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaethol yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd amserol am ofal a thriniaeth y cleifion. |

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd dewisiadau iaith ac anghenion cyfathrebu yn cael eu cofnodi mewn cynlluniau gofal a thriniaeth yng nghofnodion y cleifion. Roedd gwasanaethau eirioli hefyd ar gael yn hawdd ac yn cael eu defnyddio gan gleifion yn yr uned.

Roedd yn gadarnhaol gweld bwrdd 'pwy yw pwy?' a oedd yn cynnwys lluniau o'r staff. Mae hyn yn helpu'r cleifion i ymgyswddo â'r rhai sy'n darparu eu gofal.

Roedd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn ymddangos yn bwyllog ac yn barchus drwy gydol yr arolygiad. |

Hawliau a chydraddoldeb

Gwnaethom gadarnhau bod hawliau'r cleifion mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu parchu. Rhoddwyd neu cynigiwyd deunydd ysgrifenedig i'r cleifion esbonio eu hawliau.

Roedd tystiolaeth bod y cleifion yn cael eu cynnwys yn eu gofal a'u thriniaeth, gan gynnwys cael eu gwahodd i rowndiau ward wythnosol. Os nad oedd claf yn dymuno gwneud hynny, roedd hyn yn cael ei gofnodi'n glir. Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld cofnodion clir o eiriolaeth a gyfarwyddwyd gan y claf neu fod perthnasau'n cael eu cynnwys lle roeddent yn dymuno hynny. |

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y fynedfa i'r uned ar glo bob amser, ac roedd mynediad cyfyngedig i weddill yr ysbyty y tu allan i oriau. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol a dywedwyd bod y rhain mewn cyflwr da. Roedd larymau galw a brys wedi'u gosod ar y waliau o amgylch yr uned, gan gynnwys yn ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da ar y cyfan ac nid oedd unrhyw faterion amlwg yn gysylltiedig ag ystadau. Roedd archwiliadau o bwyntiau clymu yn cael eu cwblhau, a'u hategu gan archwiliadau amgylcheddol yn ystod rowndiau. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r archwiliad o bwyntiau clymu er mwyn sicrhau:

- Bod dyddiad yr adolygiad diwethaf yn glir er mwyn nodi amllder adolygiadau
- Bod sgôr risg newydd/sy'n weddill yn cael ei chofnodi, yn dilyn camau lliniaru i leihau'r risg a nodwyd
- Bod risgiau sy'n bodoli ers tro yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod camau'n cael eu cymryd yn unol â lefel y risg, neu eu bod yn cael eu cofnodi fel risgiau a gwblhawyd, fel y bo'n briodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei broses a'i dempled ar gyfer cynnal archwiliadau o bwyntiau clymu er mwyn sicrhau bod risgiau pwyntiau clymu yn cael eu rheoli'n gadarn.

Nid oedd ystafell ar gael yn yr uned i gadw cleifion ar wahân. Fodd bynnag, roedd ardal gofal ychwanegol ar gael nad oedd yn cael ei defnyddio ar adeg yr arolygiad. Roedd y weithdrefn weithredu safonol ar gyfer ei defnyddio ar ffurf ddrafft a byddai'n fuddiol ei chadarnhau'n brydlon er mwyn sicrhau bod yr ardal gofal ychwanegol yn cael ei defnyddio'n briodol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y weithdrefn ddrafft ar gyfer yr ardal gofal ychwanegol yn cael ei chadarnhau cyn gynted â phosibl.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau atal a rheoli heintiau yn effeithiol yn yr uned. Roedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau yn ôl ei rôl a'i ddyletswyddau. Roedd cyfradd gydymffurfio'r staff â hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau yn dda.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod agweddau ar atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, gan gynnwys amserlenni glanhau, gwiriadau amgylcheddol ac archwiliadau hylendid dwylo, gan sicrhau sgoriau uchel.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael i'r cleifion. Roedd pob darn o gyfarpar yn gweithio, ond gwelwyd bod yr ardal hon yn eithaf anhrefnus. Dywedodd y staff mai diffyg lle storio yn yr uned oedd y rheswm dros hyn.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell golchi dillad yn cael ei thacluso, a bod opsiynau storio priodol yn cael eu hystyried i storio cyfarpar.

Roedd amrywiaeth o gyfarpar cymunedol ar gael, er enghraifft yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol, ac amrywiaeth o ddyfeisiau aml dro yn yr ystafell clinig. Er bod y rhain yn ymddangos yn lân, rydym yn argymhell y dylid defnyddio systemau, fel y labeli 'I am clean' gwyrdd, i sicrhau bod pob darn o gyfarpar yn cael ei lanhau'n briodol cyn ei ddefnyddio.

Dylai'r bwrdd iechyd ddefnyddio system, fel y labeli 'I am clean' gwyrdd, i sicrhau ei bod yn hawdd gweld pa gyfarpar a dyfeisiau aml dro sy'n barod i'w defnyddio. |

Diogelu plant ac oedolion

|Gwelsom fod prosesau addas ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd prosesau sefydledig ar waith, yr oedd y staff yn gyfarwydd â nhw. Roedd y staff yn deall beth allai fod yn gyfystyr â phryder yn ymwneud â diogelu ac yn gwybod sut i uwchgyfeirio pryderon at reolwyr y ward neu'r nyrs arwain ar gyfer diogelu.

Gwnaethom nodi bod dull gofalus yn cael ei ddefnyddio os oes ansicrwydd p'un a oes angen cyflwyno hysbysiad diogelu, a bod y digwyddiad yn cael eu nodi a'i adolygu gan y nyrs arwain ar gyfer diogelu.

Gwnaethom ystyried nifer o ddigwyddiadau a gwelsom fod y prosesau sefydledig wedi cael eu dilyn ym mhob achos wrth roi gwybod am y digwyddiad, ei adolygu a chymryd camau dilynol. Roedd hyn yn cynnwys goruchwyllo drwy strwythur llywodraethu priodol, gan nodi ac ymgorffori gwersi a ddysgwyd ym mhob rhan o'r uned. |

Rheoli meddyginiaethau

|Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ac yn briodol ar y cyfan, ond nodwyd rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â storio a gwaredu meddyginiaethau.

Gwelwyd bod yr ystafell clinig ar glo bob amser, a bod yr allweddi'n cael eu cadw'n ddiogel. Er bod tymheredd yr oergell yn cael ei wirio'n rheolaidd, gwelsom nad oedd yr oergell yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oergelloedd clinigol ar glo bob amser.

Gwelsom fod y broses o storio, rhoi a chofnodi cyffuriau a reolir yn cael ei rheoli'n dda. Fodd bynnag, er eu bod yn cael eu cadw ar wahân, roedd amrywiaeth o feddyginiaethau cyffredinol a waredwyd yn cael eu storio mewn blwch heb ei gloi ar y llawr yn yr ystafell clinig.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaethau a waredwyd yn cael eu storio'n ddiogel a'u casglu i'w gwaredu mewn modd amserol.

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau brys ar gael, a'u bod yn hawdd cael gafael arnynt ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y stoc yn gyfredol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cyffuriau hylif wedi'u dyddio'n briodol. Gwnaethom hefyd nodi y dylai staff yr uned gael hyfforddiant gloywi ar sut i ddefnyddio'r silindr ocsigen cludadwy yn ddiogel.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod yr holl gyffuriau brys yn cael eu dyddio er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar y weithdrefn ar gyfer defnyddio'r silindr ocsigen cludadwy yn unol â [Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041](#).

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn briodol yn y penderfyniadau a wnaed am eu meddyginiaeth. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau yn ystod rowndiau ward wythnosol er mwyn helpu'r cleifion i ddeall y meddyginiaethau a ragnodwyd, a darparu taflenni ar feddyginiaethau ar gais. Roedd y rowndiau ward hefyd yn fforwm i adolygu meddyginiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol yn glinigol. |

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd y system ar gyfer cofnodi digwyddiadau, gan gynnwys unrhyw ymyriadau corfforol, wedi'i sefydlu'n dda yn yr uned. Roedd y staff yn gwybod sut i roi gwybod am ddigwyddiadau, ac roedd tystiolaeth bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd agored a chyson. Roedd strwythur llywodraethu clir ar waith ar gyfer goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau, gyda dolen adborth rhwng rheolwyr y ward a'r staff.

Roedd tystiolaeth bod strategaethau ataliol a therapiwtig yn cael eu defnyddio, er mwyn atal ymddygiadau rhag gwaethygu i'r graddau bod angen defnyddio ymyriadau corfforol, fel atal.

Roedd lefelau arsylwi uwch yn cael eu rhoi ar waith yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Gwelsom lefelau staffio digonol i gyflawni'r lefelau arsylwi gofynnol, ac roedd prosesau ar waith o ran y gweithlu i hwyluso hyn pan fo angen. Roedd y staff yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i gwblhau arsylwadau therapiwtig.

Roedd yn gadarnhaol gweld lefelau da o gydymffurfiaeth â hyfforddiant yn y maes hwn, yn enwedig llyfrau gwaith wedi'u cwblhau gan y staff yn dilyn eu hyfforddiant, i ddangos eu dealltwriaeth a'r hyn a ddysgwyd. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn helpu i sicrhau mai prin oedd y defnydd o ymyriadau corfforol yn yr uned, gan ddangos bod y dull lleiaf cyfyngol yn gweithio'n effeithiol i dawelu ymddygiadau heriol.

Gwnaethom nodi bod trefniadau tîm amlddisgyblaethol yr uned, gan gynnwys cydleoli timau meddygol, therapi a cymunedol, yn helpu i feithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol a sicrhau cydweithio effeithiol rhwng y timau.

Roedd asesiadau iechyd corfforol yn cael eu cynnal wrth dderbyn cleifion i'r uned, a gwelsom fod asesiadau risg safonol yn cael eu defnyddio ym mhob achos. Roedd asesiadau rheoli risg i reoli risgiau difrifol hefyd yn cael eu cwblhau ac yn cynnwys manylion da. Roedd tystiolaeth bod y rhain wedi cael eu diweddarau yn unol â newidiadau i broffiliau risg y cleifion.]

Maeth a hydradu

[Gwelsom fod anghenion maethol y cleifion wedi cael eu hasesu wrth eu derbyn. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio asesiadau clinigol Cymru gyfan.

Yng nghofnod un o'r cleifion lle roedd risg glinigol uchel wedi'i nodi, gwnaethom gadarnhau bod camau dilynol priodol wedi cael eu cymryd. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau gan gydweithwyr ym maes deieteg a diabetes. At hynny, roedd gwiriadau pwysau wedi cael eu cofnodi'n rheolaidd. Roedd yn gadarnhaol nodi bod atgyfeiriad parhaus at y tîm anhwylderau bwyta ar waith, fel rhan o'r broses o gynllunio trefniadau rhyddhau'r unigolyn.

Roedd pob claf yn cael ei gefnogi i ddiwallu a bodloni ei anghenion a'i ddewisiadau deietegol unigol. Er bod y cleifion wedi mynegi rhywfaint o anfodddhad mewn perthynas â'r dewis o brydau ac opsiynau, gwelsom fod y prydau a ddarparwyd o safon dda. Roedd hyn yn cynnwys bwydlenni amrywiol, gydag amrywiaeth o brydau

poeth, cawl, a phwdinau. Roedd opsiynau iach yn cael eu nodi ar y fwydlen er mwyn helpu'r cleifion i wneud dewis ar sail gwybodaeth.

Roedd cegin fach ar gael i'r cleifion storio byrbrydau a gwneud diodydd poeth ac oer rhwng prydau bwyd. Roedd y therapydd galwedigaethol hefyd yn trefnu sesiynau gwneud smwddis er mwyn helpu i ychwanegu amrywiaeth a hyrwyddo bwyta'n iach. |

Cofnodion Cleifion (Gan gynnwys monitro Mesur Iechyd Meddwl 2010: cynllunio a darparu gofal)

|Mae'r system gyfredol ar gyfer cadw cofnodion yn heriol, gyda chofnodion electronig a phapur yn cael eu defnyddio. Roedd hyn yn deillio'n rhannol o gyfyngiadau'r system electronig. Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd y wybodaeth yng nghofnodion y cleifion yn gymesur i arhosiad y cleifion yn yr uned, a'r rheswm dros eu derbyn.

Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â meysydd y Mesur Iechyd Meddwl, gan gynnwys cofnodion da o anghenion cleifion, risgiau a chynlluniau gofal cyfatebol, mewn templedi cynlluniau gofal a thriniaeth cydnabyddedig.

Roedd tystiolaeth bod y tîm aml-ddisgyblaethol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gleifion, a oedd yn cynnwys y claf, gofalmwyr, perthnasau ac eiriolwyr, lle y bo'n briodol. |

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

|Gwnaethom edrych ar gofnodion pedwar claf a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a gwelsom fod yr holl ddogfennau cyfreithiol mewn perthynas â'u derbyn yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Roedd tystiolaeth ddogfennol glir bod hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf, a bod hawliau'r cleifion yn cael eu cyflwyno iddynt yn rheolaidd a'u bod yn cael gwybodaeth ysgrifenedig amdanynt.

Roedd cysylltiadau â gwasanaethau eirioli lleol wedi'u datblygu'n dda ac roedd cydberthnasau gwaith cadarnhaol wedi'u meithrin. Gwnaethom nodi bod eiriolwyr yn ymweld â'r uned yn wythnosol i gwrdd â chleifion wyneb yn wyneb, cymryd rhan mewn cyfarfodydd, a helpu cleifion i baratoi ar gyfer unrhyw dribiwnlysoedd neu gyfarfodydd â rheolwyr yr ysbyty.

Roedd y cofnodion yn hawdd eu defnyddio ac roeddent wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai ffurflenni absenoldeb Adran 17 gael eu cadw yn y cofnodion papur sydd ar gael yn hawdd yn yr uned. Byddai hyn

yn sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff newydd neu staff dros dro yn yr uned, yn gallu gweld y gofynion o ran Absenoldeb Adran 17 yn hawdd.

Roedd tîm gweinyddu canolog y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y bwrdd iechyd yn goruchwyllo'r uned yn gadarn. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Gwnaethom wahodd y staff i roi adborth drwy arolwg a chawsom 10 ymateb. Roedd sylwadau'r staff yn gymysg, ac yn cynnwys y canlynol: |

" Mae dirprwy reolwyr y ward yn gefnogol iawn ac yn hawdd mynd atynt. Nid yw'r rheolwr llinell yn gefnogol iawn nac yn hawdd mynd ato"

" Nid oes llawer o gyfleoedd i ddatblygu ar y ward, ac mae'n ymddangos bod "clic" yn y gweithle rhwng y staff band 6"

"Nid wyf yn aelod o staff cyflogedig ar ward Carn y Cefn, ond rwy'n aelod o'r TIMC y drws nesaf ac rydym yn ymwneud â'r ward yn aml. Mae'r staff bob amser wedi bod yn barod iawn i helpu ac maent bob amser yn canolbwyntio ar y claf [...] Yn fy marn i, dyma'r ward iechyd meddwl aciwt sy'n canolbwyntio ar y claf fwyaf cefnogol yn y bwrdd iechyd"

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd yn ymddangos bod y prosesau llywodraethu a goruchwylio yn gweithio'n dda, gan alluogi gwybodaeth i gael ei rhannu rhwng yr uned, uwch-staff nyrsio a chyfarfodydd ar lefel is-adrannol. Roedd y materion a godwyd yn y cyfarfodydd hyn yn ymwneud â gofal cleifion, y gweithlu, ansawdd a diogelwch.

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward, gan gynnwys staff profiadol, gwybodus ac ymatebol. Drwy gydol yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod pob aelod o'r staff ar y ward yn cydweithio'n dda â'i gilydd.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i'r arolwg staff eu bod yn gallu dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith. Roedd pob aelod o'r staff ond un yn cytuno eu bod yn cael adborth clir a bod eu rheolwr yn gofyn iddynt am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

O ran yr uwch-reolwyr, roedd pob aelod o'r staff ond un yn cytuno bod eu huwch-reolwyr yn weladwy, yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau wrthi'n cael eu diweddarau. Rydym yn argymhell y dylid rhoi blaenoriaeth i adolygu a chadarnhau polisiau a gweithdrefnau

yn ôl lefel y risg. Dylai hyn gynnwys y polisi ar atal a rheoli trais ac ymddygiad ymosodol a'r polisi ar gyfer yr ardal gofal ychwanegol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u cadarnhau mewn modd amserol. Dylai'r rhain gael eu blaenoriaethu yn ôl lefel y risg. |

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd yn gadarnhaol gweld gweithlu sefydlog ar y cyfan, gyda nifer da o staff a chymysgedd sgiliau da yn yr uned. Mae hyn yn bwysig ar gyfer y grŵp cleifion a natur y gofal a ddarperir.

Roedd y staff a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o gyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, dywedodd traean o'r staff y byddent yn croesawu mwy o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn.

Ar y cyfan, roedd cyfraddau cydymffurfio'r staff â hyfforddiant gorfodol uchel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r hyfforddiant ar godi a chario. Cadarnhaodd y staff fod cynlluniau ar y gweill i ddatrys hyn, a bod absenoldeb staff wedi achosi oedi. Cadarnhaodd y staff fod hyfforddiant sydd wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys ar bob shift, ond gwnaethom nodi y gellid cynyddu nifer y staff hyfforddedig. Byddai hyn yn sicrhau bod digon o staff ar gael pe bai staff yn absennol yn annisgwyl neu ar wyliau. Felly, rydym yn argymhell y dylid cynyddu nifer y staff nyrsio sydd wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mwy o staff yn cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys er mwyn gwneud yn siŵr bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar bob shift.

Roedd y gyfradd gydymffurfio ag arfarniadau staff blynyddol yn dda. Roedd tystiolaeth o ddysgu a datblygu, yn unol â dymuniadau ac anghenion a nodwyd yn ystod arfarniadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd addysg bellach a hyfforddiant allanol.

Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r staff a ymatebodd i'r arolwg nad yw eu gwaith yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, bod y sefydliad yn gweithredu'n gadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant, a bod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol. |

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd cyfleoedd wedi'u hyrwyddo'n dda i gleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth, rhoi canmoliaeth a gwneud cwynion. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni', posteri yn arddangos proses Gweithio i Wella y GIG, gwybodaeth am eirioli, a gwybodaeth am rôl AGIC. Roedd system adborth cleifion Civica, sef menter gan GIG Cymru, yn cael ei defnyddio er mwyn helpu i gasglu adborth mewn amser real drwy godau QR a negeseuon testun i gleifion.

Roedd tystiolaeth bod yr uned yn adolygu adborth, yn ymateb iddo ac yn ei arddangos. Roedd hyn yn cynnwys ymateb i gwynion a phryderon ffurfiol, a'u goruchwylio. |

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd tystiolaeth bod archwiliadau lleol, is-adrannol a chorfforaethol o ansawdd nyrso yn cael eu cynnal yn yr uned. Roedd canlyniadau'r archwiliadau hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, ac yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd llywodraethu priodol i'w goruchwylio. Roedd y strwythur llywodraethu hwn yn helpu i rannu a safoni gwersi a ddysgwyd ar draws yr is-adran gwasanaethau cymunedol.

O ran digwyddiadau, roedd tystiolaeth bod y staff yn rhoi gwybod amdanynt mewn modd amserol, a'u bod yn cael eu hadolygu a'u goruchwylio'n briodol, gan nodi gwersi a ddysgwyd. Ar y cyfan, roedd dolen adborth da rhwng rheolwyr yr uned a'r staff.

Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i'r arolwg fod y sefydliad yn ei annog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, dywedodd dau ymatebydd nad oeddent yn teimlo bod camau digonol yn cael eu cymryd i sicrhau nad oeddent yn digwydd eto, neu nad oedd adborth am newidiadau bob amser yn cael ei roi. Fodd bynnag, dywedodd pob un o'r ymatebwyr ond un wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus i godi pryderon clinigol. |

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Carn y Cefn, Ysbyty Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 15-17 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Profiad y claf	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid gwella ardal yr ardd er mwyn cynnig mwy o werth therapiwtig i'r cleifion.	1) Mae Rheolwr y Ward yn cyfathrebu â Chyngor Sir Fynwy i drefnu i'r cerrig pafin concriid gael eu golchi â pheiriant golchi â phŵer.	Rheolwr y Ward	Rhoddir diweddariad erbyn 20/12/2024
			2) Bydd dodrefn newydd yn cael eu hystyried ar gyfer ardal yr ardd. Rydym yn aros am gostau ar gyfer dodrefn trwm ychwanegol (ystod Ryno Challenging Environments)	Rheolwr Gwella Gwasanaethau/Clerc y Ward	Cânt eu costio a'u harchebu erbyn 20/12/2024
			3) Mae Therapydd Galwedigaethol wedi cydgysylltu â Growing Space, ein darparwr yn y trydydd sector. Byddant yn cwrdd ym mis Ionawr i asesu'r hyn sydd ei angen yn ardal yr ardd i greu gwelyau plannu uchel a gwella'r ardal i'w gwneud yn fwy therapiwtig. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â defnyddwyr	Y Therapydd Galwedigaethol Arweiniol a Rheolwr y Ward, mewn cydweithrediad â Growing Space	Caiff cyfarfod ei gynnal a chytunir ar y fanyleb erbyn 17/01/2025

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
		gwasanaethau a'r staff sy'n gweithio ar y ward.			
		<p>Caiff camau gweithredu 1-3 eu monitro drwy'r canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrzio	Ionawr 2025 ymlaen	
2.	Gofal Diogel ac Effeithiol - Rheoli Risg	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei broses a'i dempled ar gyfer cynnal archwiliadau o bwyntiau clymu.	4) Mae grŵp pwyntiau clymu Cymru gyfan ar waith, yn unol â ffrydiau gwaith y Pwyllgor Diogelwch Cleifion Cenedlaethol. Mae'r grŵp hwn wrthi'n datblygu asesiad risg, pecyn hyfforddiant a pholisi Cymru gyfan mewn perthynas â phwyntiau clymu. Bydd y cynrychiolydd ar gyfer Iechyd Meddwl Oedolion yn cyflwyno'r argymhellion hyn i'r grŵp Cymru gyfan ar 11/12/24 ac yn eu trafod yng Nghyfarfod Goruchwyllo Is-adrannol y Pwyllgor Diogelwch Cleifion Cenedlaethol ar 11/12/2024.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion	Cyfarfod y grŵp pwyntiau clymu Cymru gyfan ar 11/12/2024.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		5) Caiff ei drafod yn y cyfarfod Rheoli Risgiau Pwyntiau Clymu Is-adrannol nesaf ar 10/12/2024 er mwyn cytuno ar ffordd unedig o roi'r argymhellion hyn ar waith ar gyfer pob asesiad risg cyfredol mewn perthynas â phwyntiau clymu yn yr Is-adran nes bod y fersiwn Cymru gyfan wedi cael ei chadarnhau.	Cyfarfod Rheoli Risgiau Pwyntiau Clymu Is-adrannol.	Caiff ei adolygu yn y cyfarfod Pwyntiau Clymu Is-adrannol ar 10/12/2024
		Caiff camau gweithredu 4-5 eu monitro drwy'r canlynol: - <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen
3.	Gofal Diogel ac Effeithiol - Rheoli Risg	6) Mae'r canllawiau ar yr Ardal Gofal Ychwanegol wedi cael eu hadolygu a'u newid i'r 'Polisi Cadw ar Wahân a Gwahanu'. Mae hyn wedi cael ei adolygu a'i gadarnhau yn y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion Is-adrannol.	Nyrs Is-adrannol	WEDI'I GWBLHAU

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ei chadarnhau cyn gynted â phosibl.	Caiff y cam gweithredu hwn ei fonitro drwy'r canlynol: - <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen
4.	Gofal Diogel ac Effeithiol - Atal a Rheoli Heintiau	<p>7) Mae'r ystafell golchi dillad wedi cael ei thacluso, mae holl eitemau personol cleifion wedi cael eu hanfon adref gyda nhw ac mae unrhyw eitemau diangen wedi cael eu gwaredu.</p> <p>8) Mae hyn wedi'i ychwanegu at archwiliad wythnosol y ward er mwyn sicrhau bod pob ardal yn daclus.</p> <p>9) Caiff yr archwiliad wythnosol ei fonitro gan y Nyrs Arwain Glinigol Band 6.</p> <p>10) Mae bocsys newydd wedi cael eu harchebu i gynnig mwy o le storio trefnus yn yr ardal, ac maent wedi cyrraedd.</p> <p>11) Mae cypyrddau/silffoedd ychwanegol wedi'u gosod yn yr Olchfa a'r Cwpwrdd Dillad Gwely.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Nyrs Arwain Glinigol</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU AC YN BARHAUS</p> <p>WEDI'I GWBLHAU AC YN BARHAUS</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>WEDI'I GWBLHAU</p>

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Caiff camau gweithredu 7-11 eu monitro drwy'r canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen
5	Gofal Diogel ac Effeithiol - Atal a Rheoli Heintiau	12) Mae labeli 'I am Clean' wedi'u prynu ac maent bellach yn cael eu defnyddio. Mae gan y ward fanylion y rhif archeb fel bod modd archebu rhagor ohonynt.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU
		13) Mae proses archwilio ar waith i fonitro cydymffurfiaeth.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU AC YN BARHAUS
		<p>Caiff camau gweithredu 12-13 eu monitro drwy'r canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
6	Gofal Diogel ac Effeithiol - Rheoli Meddyginiaethau	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oergelloedd clinigol ar glo bob amser.	14) Mae'r oergelloedd clinigol wedi'u hychwanegu at yr archwiliad wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar glo bob amser.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU AC YN BARHAUS
		15) Caiff yr archwiliad monitro ei fonitro gan y Nyrs Arwain Glinigol Band 6 sydd â Chyfrifoldeb.	Nyrs Arwain Glinigol sydd â Chyfrifoldeb	WEDI'I GWBLHAU AC YN BARHAUS	
		16) Caiff hyfforddiant sefydlu'r ward ei ddiweddarau i adlewyrchu'r uchod.	Rheolwr y Ward	20/01/2025	
		17) Caiff gwiriadau clinigol eu cofnodi drwy system Archwilio, Rheoli ac Olrhain (AMAT) y GIG drwy broses achredu'r ward a haparchwiliadau.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU AC YN BARHAUS	
		Caiff camau gweithredu 14-17 eu monitro drwy'r canlynol: -	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen
7	Gofal Diogel ac Effeithiol -	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaethau a	18) Mae'r Fferyllydd Arweiniol wedi cael gwared ar stoc dros ben.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoli Meddyginiaethau	wareddwyd yn cael eu storio'n ddiogel a'u casglu mewn modd amserol.	19) Mae Rheolwr y Ward a'r Fferyllydd Arweiniol wedi cytuno ar broses i waredu meddyginiaethau mewn modd amserol.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU
			20) Caiff gwiriadau meddygol eu cynnal yn wythnosol ar y ward.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU AC YN BARHAUS
			Caiff camau gweithredu 18-20 eu monitro drwy'r canlynol: - <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen
8	Gofal Diogel ac Effeithiol - Rheoli Meddyginiaethau	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod yr holl gyffuriau brys yn cael eu dyddio er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol.	21) Caiff hyfforddiant sefydlu'r ward ei ddiweddarau i adlewyrchu'r angen i'r holl gyffuriau brys gael eu dyddio er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol.	Rheolwr y Ward	20/01/2025
			22) Mae hyn wedi'i ychwanegu at y rhestr wirio nosweithiol a reolir gan y Nyrs â Chyfrifoldeb. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl gyffuriau brys yn cael eu dyddio'n ddyddiol. Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn sicrhau y caiff cyffuriau newydd eu	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU - mae proses fonitro ar waith

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
		harchebu yn lle unrhyw gyffuriau y mae eu dyddiadau defnyddio ar fin mynd heibio.			
		23) Mae pob aelod o staff nyrsio newydd gymhwyso wedi cwblhau hyfforddiant ar Reoli Meddyginiaethau fel rhan o'r Broses Sefydlu.	Rheolwr y Ward	WEDI'I GWBLHAU	
		Caiff camau gweithredu 20-23 eu monitro drwy'r canlynol: - <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen	
9	Gofal Diogel ac Effeithiol - Rheoli Meddyginiaethau	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r silindr ocsigen cludadwy.	24) Bydd Rheolwr y Ward yn cydgysylltu â'r Tîm Adfywio er mwyn ystyried hyfforddiant priodol ar ddefnyddio therapi ocsigen.	Rheolwr y Ward	20/12/2024
		25) Bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein BOC (gwneuthurwyr silindrau ocsigen).	Rheolwr y Ward	31/12/2024	

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Caiff camau gweithredu 24-25 eu monitro drwy'r canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen
Gofal Diogel ac Effeithiol	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u cadarnhau mewn modd amserol. Dylai'r rhain gael eu blaenoriaethu yn ôl lefel y risg.	26) Mae'r Nyrs Is-adrannol wedi cyflwyno Grŵp Polisi a system olrhain ddiwygiedig er mwyn sicrhau bod polisiâu'n cael eu hadolygu a'u cadarnhau mewn modd amserol. Caiff camau gweithredu eu blaenoriaethu yn ôl lefel y risg yn ystod y cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 2024.	Nyrs Is-adrannol	Yn mynd rhagddo - Rhagfyr 2024
		<p>Caiff y cam gweithredu hwn ei fonitro drwy'r canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
10	Arweinyddiaeth a Rheolaeth - Y Gweithlu	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mwy o staff yn cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys.	27) Y gyfradd gydymffurfio bresennol â hyfforddiant cynnal bywyd brys yw 50%. Mae hyn yn cael ei fonitro'n lleol gan Reolwr y Ward.	Rheolwr y Ward	PARHAUS
		28) Cyflawni cyfradd gydymffurfio o 70% ar gyfer hyfforddiant cynnal bywyd brys erbyn diwedd mis Ionawr 2025.	Rheolwr y Ward	Ionawr 2025	
		29) Cyflawni cyfradd gydymffurfio o 100% ar gyfer hyfforddiant cynnal bywyd brys erbyn mis Mawrth 2025.	Rheolwr y Ward	Mawrth 2025	
		Caiff camau gweithredu 27-29 eu monitro drwy'r canlynol: -	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025 ymlaen	
		<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion a Dysgu Is-adrannol • Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion • Fforwm Dysgu a Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion 			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): N Gould

Swydd: Nyrs Is-adrannol

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2024